# CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR

## COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR NOS FERCHER 14.01.2026 YN Y GANOLFAN, WAUNFAWR AM 7 o'r GLOCH.

**Presennol –** Cynghorwyr

Liz Daniel (Cadeirydd)
Delyth Jones
Dafydd Davies
Edgar Owen
Elfyn Griffith
Sali Burns
Menna Trenholme
Iwan Davies
Hawys Tuff (cyrraedd yn hwyrach)
Shoned Rees Griffith (Cofnodi)

**1. Croeso'r Cadeirydd -** Croesawodd y Cadeirydd pawb oedd yn bresennol.

**2. Ymddiheuriadau –** Cyng Doug Jones

**3. Datganiadau aelodau yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.**

3.1. Ni ddatganwyd gwybodaeth ychwanegol i'r uchod, nag a restrir yn barod o fewn cofrestr 'Datganiad Cyffredinol o Fuddiannau Personol Aelodau'.

**4. Derbyn Cofnodion Cyfarfod 03.12.2025**

Y Cyng EG yn cynnig bod cofnodion y Cyfarfod yn gywri, y Cyng SB yn eilio.

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion 03.12.2025**

**Materion Caeathro** –
**Troedffordd o Gaeathro i Gaernarfon -** Dim pellach i'w adrodd.
**Hysbysfwrdd** – Mynd i gael ei osod diwedd yr wythnos
**Daffodils –** I'w Plannu
**Llwybr Troed (Llety i Caeathro)** – wedi trafod yn flaenorol, dim cyllideb ar gael

**Materion Waunfawr** –
**Les tir tu ol i'r Ganolfan** / **Cae Aml-dywydd** – Cafwyd trafodaeth ynglyn a'r cae a cynnigwyd gan y Cyng ID y byddi'r Cyngor Cymuned yn hapus i arwyddo'r Les ar yr amod ein bod yn dod i gytundeb gyda'r Ganolfan eu bod yn gweinydu defnydd o'r cau ac yn cadw llygaid ar ei gyflwr, eilwyd gan y Cyng DD. Cyngor Cymuned i gyfarfod gyda aelodau Pwyllgor y Ganolfan cyn diwedd Mawrth. Cadarnhawyd hefyd ein bod yn cymryd y tir wrth ymyl y cae amldywydd a chynlluio i'r dyfodol.
**Baw Ci** - Parhau i fod yn broblem.
**Gwefan** – Wedi ei diweddaru, wefan yn iawn am y tro ond angen ei diweddaru.
**Tyllau yn y ffordd -** Ffordd heibion Ael y Bryn angen sylw, ar y gweill i gael ei ail wynebu. Tyllau yn y ffordd yn gwaelod lon Bryn Golau angen sylw.

**Arwydd Stad Bod Hyfryd –** Cyng EO yn mynd i holi Cyngor Gwynedd, ac archebu un newydd os oes angen.
**Hysbysfwrdd** - mynd i gael ei osod wythnos yma.
**Gor-yrru** – Dal yn broblem, PLIS PAWB i barchu y 20mya. Gosafe wedi bod yn Caeathro yn ddiweddar.
**Potiau Blodau** – Cyng SB yn mynd i gysylltu hefo'r Antur.
**Daffodils** – Rhy hwyr i'w plannu flwyddyn yma,cadw at flwyddyn nesaf..
**Lon Garreg Fawr** – Cyngor Gwynedd wedi bod yno i fesur uchder o'r ffordd i'r coed, a delio a'r mater os bydd angen.

**Grant Gwynedd Ni –** rhai anfonebau wedi eu rhoid mewn i Cyngor Gwynedd. Angen anfonebau am ffenestri y Ganolfan a gosod yr hysbysfwrdd erbyn dydd mawrth wythnos nesaf, fan bellaf.

**6. Sedd Wag –** Cyng MT yn trafod hefo unigolion Caeathro.

**7. Gerddi Bach –** Dim pellach i'w adrodd ar hyn o bryd.

**8. Adroddiadau**

**a. Lloches Bws** –Enwau dal angen eu newid, mi gawn eu gwneud pan fydd yr amserlen bws yn newid yn fuan.
**b. Y Fynwent** – Dim pellach i'w adrodd ar hyn o bryd.
**c. Llwybrau –** Cyng SB yn cynnal cyfarfod cyhoeddus i drafod llwybrau yr ardal, 5/2/26.
**ch. Cynllun Gwyrfai Gwyrdd** – 15 eiddo wedi ymrwymo a'r cynllun hyd yma. Mwy o waith ar y gweill yn ystod y misoedd nesaf, cydweithio gyda Uchelgais a Cynllun Cadnant. Safle we www.gwyrfaigwyrdd.cymru
**d. Gwaith atal llifogydd Waunfawr -** Cyng EO yn mynd i holi YGC os oes modd rhoid llinnell wen lawr ymyl ffordd o Snowdonia Fire i Groeslon er mwyn dangos bod ffoes wrth ymyl y ffordd fel sydd yn uwch i fyny. Phase 1 wedi gorffan rwan, bydd phase 2 yn cychwyn mis Tachwedd 2026.

**9. Materion Cynllunio**

**a. Ceisiadau newydd**

| Dyddiad Cofrestru | Bwriad | Lleoliad | Rhif Cais | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

**10. Gohebiaeth**

Llwybrau Llechi Eryri
Eco'r Wyddfa
Aelod Seneddol – Digwyddiad Cyn Filwyr
Cwmpas – Grantiau Perthyn i grwpiau Cymunedol 2026
Cyngor Gwynedd – Cynllunio
National Grid – Cyflwyniad i brosiect Cysylltiad Gorllewinol
Unllais
Clwb Rygbi Caernarfon – Diolch am y rhodd
Cyngor Gwynedd- Ymgynghoriad Statudol – Ysgol Baladeulyn
Cambrian Ecology – Tir wrth ymyl Cae Amldywydd
Cyngor Gwynedd – Preasept 2026/27
Partneriaeth Dyffryn Peris – Cyfarfod Ion 21 yn Caffi'r Bedol, Bethel

Cyngor Gwynedd – Cae Amldywydd
Cyngor Cymuned Llanrug – Addurniadau Nadolig
Cwynion am gwteri Waunfawr
Cyngor Gwynedd – Ad-daliad am gynnal a chadw llwybrau cyhoeddus

**11. Materion Ariannol**

**11.1 Arian wedi ei dalu allan**

| | |
|---|---|
| £258.00 | Cyflog Clerc |
| £52.00 | H M Revenue & Customs |

**11.2 Arian a dderbyniwyd**

**11.3 Anfonebau i'w talu**

| | |
|---|---|
| £258.00 | Cyflog Clerc |
| £52.00 | H M Refenue & Customs |
| £231.20 | Gwaith gosod hysbysfwrdd Waunfawr a Chaeathro (Gwaith Grant) |
| £4995.00 | Sion Jones, Ffenestri Ganolfan (Gwaith Grant) |
| £427.89 | Cyng SB |

**11.4 Ffioedd Banc**

| | |
|---|---|
| £1.20 | Tachwedd -Rhagfyr 2025 |

**TAW**

Aros ymateb gan A Hughes Jones, Dyson & Co

**11.5 Preasept 2026/27**

Cafwyd trafodaeth ynglyn a'r gwariant hyd yma eleni, a'r arian sydd gan y Cyngor Cymuned yn y banc. A chymryd i ystyriaeth costau byw a.y.y.b ar hyn o bryd, a gan fod gan y Cyngor Cymuned arian wrth gefn ar hyn o bryd roedd pawb yn unfrydol ein bod yn gadael y preasept yr un fath am flwyddyn arall sef £12,000. Clerc i gadarnhau gyda Chyngor Gwynedd.

**11.6 Ffioedd Cynghorwyr**

Clerc wedi rhannu ffurflen i'r Cynghorwyr gadarnhau os yn gwneud cais am y ffioedd am y flwyddyn 25/26. Wedi derbyn rhai ymateb, os da chi heb ymateb yna newch chi plis anfon ei nol erbyn ein cyfarfod nesaf er mwyn eu prosesu cyn diwedd y flwyddyn arianol.

**12. Archwiliad - Adroddiadau sydd angen eu cymeradwyo**

Hyfforddiant Cynghorwyr – derbyniwyd am y flwyddyn 2025/26.
Adroddiad Blynyddol y Cyngor – derbyniwyd am y flwyddyn 2025/26.
Polisi Amgylcheddol a Bioamrywiaeth – derbyniwyd am y flwyddyn 2025/26.

**13. Dyddiad a Lleoliad y Cyfarfod Nesaf**

Nos Fercher, 25.02.2026, yn y Ganolfan yn Waunfawr.

**14. Materion Aelodau. -**

Cyng EO – Dim wedi ei dderbyn

| | |
|---|---|
| Cyng SB - | Dim wedi ei dderbyn |
| Cyng DJ - | Ymddiheuro ddim yn y cyfarfod nesaf |
| Cyng ID - | Dim wedi ei dderbyn |
| Cyng LD - | Dim wedi ei dderbyn. |
| Cyng MT - | Dim wedi ei dderbyn |
| Cyng DJ - | Dim wedi ei dderbyn |
| Cyng HT - | Dim wedi ei dderbyn |
| Cyng DD- | Dim wedi ei dderbyn |
| Cyng EG- | Ymddiheuro ddim yn y cyfarfod nesaf |